

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 15/6/2015
Minutes of the meeting held on Monday evening 15/6/2015

Presennol / Present: Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Mr Elfed Jones, Mr David Livingstone, Mr Tony Hughes, Mrs Julia Dobson, Mr Jack Longman

Cyngorwyr Sirol/ County Councillors: Cyng./Cllr Richard Jones

Yn Bresennol / In Attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu / Translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Mrs Marilyn Hughes, Cyng./Cllr Wil Hughes, Mrs Carys Davies,

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Croesawyd Mr Dave Livingstone yn ôl wedi llawdriniaeth, a dymuno'r gorau i Mrs Marilyn Hughes wedi gwaeledd diweddar.

Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. Mr Dave Livingstone was welcomed back having had an operation, and a speedy recovery was wished for Mrs Marilyn Hughes following recent ill health.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio (cyffredinol) / *Planning (general)* – Richard Jones
Wylfa Newydd – Julia Dobson

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones, eiliwyd gan Julia Dobson.
The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by Julia Dobson.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Toiledau / Toilets

Deallwyd bod Mr Arthur Owen wedi bod mewn cysylltiad â Derek Owen, ac wedi cadarnhau bod y problemau ar fin gael eu datrys a bydd y toiledau 100% yn barod mewn tair wythnos. Nodwyd bod angen cyfarfod ar y safle ac arolwg o'r adeilad cyn bod y Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb.

It was understood that Mr Arthur Owen has been in contact with Derek Owen, and has confirmed that the issues are nearly all addressed and that the toilets will 100% be ready in three weeks. It was noted that a site visit is required and a survey of the building before the Community Council take responsibility.

4.2 'Rumble Stones'

Cafwyd e-bost gan y Cyngor Sir yn nodi nad oedd yr unigolyn mewn cadair olwyn wedi ceisio croesi'r lon mewn man croesi pwrpasol. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn meddwl am dynnu'r olwyn frics ger y Stag yn y dyfodol os nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad.

The County Council have emailed noting that the individual in a wheelchair had not attempted to cross the road at a designated crossing point. The County Council are considering removing the brick wheel by the Stag unless the Community Council have any objections.

4.3 Rhyd y Groes

Cafwyd ymateb gan Dr Gwynne Jones yn nodi nad yw Swyddogion y Cyngor yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ond yn barod i gwrdd â'r Cyngor Cymuned. Cytuno trefnu cyfarfod cyn gynted â phosib, gan ofyn am y cyfle i drafod y fferm area heulol ar yr un pryd.

Nododd Richard Jones ei fod wedi bod yn chwilota am fwy o wybodaeth am gais gwreiddiol Rhyd y Groes a'i fod wedi dod o hyd i fwy o ddogfennau ond bod peth gwybodaeth yn dal i fod ar goll.

A response from Dr Gwynne Jones noted that Council Officers do not attend public meetings, but are willing to meet with the Community Council. Agreed to arrange a meeting as soon as possible, also requesting an opportunity to discuss the application for the solar farm at the same time.

Richard Jones noted that he had been searching for more information regarding the original Rhyd y Groes application, and that he had come across some additional documents but some information was still missing.

4.4 Harbwr / Harbour

Deallwyd gan David Livingstone bod y materion yn llythyr Mr Dafydd Williams wedi eu delio a nhw eisoes.

It was understood from David Livingstone that the matters referred to in Mr Dafydd Williams' letter have already been addressed.

5 Cyllid / Finance

Cafwyd adroddiad cryno o'r cyfarfod diwethaf gan Tony Hughes. Roedd y prif bwyntiau i'w nodi yn cynnwys:

- Les caffi traeth yn symud yn ei flaen
- Les cae pêl droed wedi ei arwyddo gan y clwb a'r cyngor
- Dogfen ddrafft ar gyfer les y llyfrgell wedi ei anfon at y cyfreithiwr am sylwadau
- Les toiledau stryd i'w gadarnhau a threfnu copi swyddogol
- Gofyn am brisiau eraill i dwtio sied y fynwent
- Rhoddwyd hawl i'r clerc gofrestru asedau'r cyngor gyda'r gofrestrfa tir, bydd costau cyfreithiol ynghlwm ond bydd yr asedau yn cael eu diogelu.
- Cytuno cyfrannu £100 i Gemaes in Bloom am waith i'r ffin rhwng y cae chwarae a Maes Padrig
- Cytuno cyfrannu £200 i Gwmni Cemaes tuag at y gystadleuaeth arddio / bwgan brain

Nodwyd bod yr archwiliad mewnol wedi ei gwblhau a chyflwynwyd y dogfennau i'r aelodau er gwybodaeth. Mae'r ffurflenni priodol ar gyfer yr archwiliad allanol wedi ei chwblhau ac fe'u cymeradwywyd. Yr unig bwynt o bwys yw bod asedau'r Cyngor wedi cynyddu yn sylweddol ers cynnwys cost y pier. Mae'r clerc wedi esbonio hyn mewn llythyr gan gynnwys copi o'r gofrestr asedau mwyaf diweddar er gwybodaeth i'r archwiliwr.

Tony Hughes gave a short summary of the last meeting. The main points of concern were:

- *Beach Café lease moving forward*
- *Football Field lease signed by both parties*
- *Draft lease for the library sent to the solicitor for observation*
- *Street toilets lease to be confirmed and arrange for an engrossed copy*
- *Asking for other quotes for work to the cemetery shed*
- *The Clerk was given permission to register the Council's assets with the land registry. There will be legal costs but the assets will be safeguarded.*
- *Agreed to contribute £100 to Cemaes in Bloom for work to the boundary between Maes Padrig and the Play Field.*
- *Agreed to contribute £200 to Cwmni Cemaes towards the annual gardening/scarecrow festival.*

It was noted that the internal audit had been completed and the documents presented to the members for information. The relevant forms for the external audit have been completed and the annual return was approved. The only point of note is that the Council's Assets have dramatically increased as the pier is now included. A covering letter and a copy of the updated asset register will be sent to the auditor for information.

6 Cynllunio / Planning

6.1 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod bod cais y gloch llanw ac amser (tynnu amodau) wedi cael caniatâd.

The time and tide bell has been granted permission (removal of conditions).

6.2 **Ceisiadau / Applications**

Roedd un cais i'w drafod sef Fferm Arae Haul. Cytuno bod angen cyfarfod a Swyddog Cynllunio i drafod ymhellach. Roedd pryder am faint y datblygiad a nifer o bwyntiau o fewn y dogfennau a gyflwynwyd. Cytuno byddai cyfarfod ar safle tebyg o fantais.

One application was presented for discussion, the Solar Farm. It was agreed that a meeting should be arranged with a Planning Officer to discuss further. Concerns raised included the size of the development and a number of points within the documents presented. Agreed a meeting at a similar site/development would be an advantage.

7 **Gohebiaeth / Correspondence**

7.1 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cafwyd dau e-bost yn atgoffa aelodau o'r angen a'r pwysigrwydd o ddatgan diddordeb, a hefyd o'r hawl i allu gofyn am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i allu cymryd rhan mewn trafodaethau.

Two emails reminding members of the need and importance of declaring interest, and also of the opportunity to apply for special dispensation from the Standards Committee to be able to participate in discussions.

7.2 Eisteddfod 2017

Gwahoddiad i gyfarfod agored 25/6/2015. Roedd yr aelodau yn gefnogol o ddod a'r eisteddfod i Fon.
Invitation to a public meeting 25/6/2015. Members were supportive of bringing the eisteddfod to Anglesey.

7.3 Grid Cenedlaethol / National Grid – diweddariad cymunedol / community update

8 **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

8.1 **Cemaes in Bloom**

Mae'r grŵp wedi gofyn i'r Cyngor a fyddai unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor petai container yn cael ei leoli tu ôl i'r clwb snwcer. Cytuno y byddai'n well iddo gael ei leoli ger y container arall.

The group have asked the Council whether there would be any objection to citing a container behind the snooker hall. It was agreed that it would be better next to the other container.

8.2 **Llwybr Carrog**

Mae cyflwr y bont yn dirywio. Cytuno dylid cysylltu â Menter Môn, Cyngor Mechell a Robin Grove-White i drafod ymhellach. Deallwyd mai Menter Môn sy'n gyfrifol ohono. Elfed Jones i wneud ymholiadau.

The bridge is deteriorating. Agreed to contact Menter Môn, Mechell Community Council and Robin Grove-White to discuss further. It was understood that Menter Môn is responsible for it. Elfed Jones to make enquiries.

8.3 **Absenoldebau / Absenteeism**

Nodwyd bod rhai aelodau yn colli cynifer o gyfarfodydd. Atgoffwyd aelodau o'r rheol chwe mis, ac nad oedd ymddiheuriad yn ddigonol.

It was noted that some members miss a number of meetings. All members were reminded of the six month rule, and that an apology was not sufficient.

9 **Wylfa Newydd**

Mae Mr Alan Raymant wedi cytuno i gyfarfod a'r Cyngor, ond mae angen rhestr o bynciau / cwestiynau ymlaen llaw. Cytuno gofyn i gynghorau cyfagos os oes ganddynt unrhyw bwyntiau o bwys i'w codi.

Mr Alan Raymant has agreed to meet with the Council, but a list of potential topics/questions is required

beforehand. Agreed to ask neighbouring councils if they have any pressing matters to raise.

10 **Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf / Date of Next Meetings**

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Gorffennaf 20, 2015, am 7o'r gloch yn y Llyfrgell.

The next full council meeting will be on Monday evening July 20, 2015 at the Library for 7pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 o'r gloch. / *The meeting closed at 7.30pm.*

CET6/2015